# Polisi Cyffuriau Anghyfreithlon

# Prifysgol Abertawe ac Undeb y Myfyrwyr

**Polisi Cyffuriau Anghyfreithlon ar gyfer Prifysgol Abertawe ac Undeb y Myfyrwyr**

**Tabl Cynnwys**


| | **Tudalen** |
|---|---|
| **Datganiad Polisi Cyffuriau** | **2** |
| **Polisi Cyffuriau** | **3** |

1. Cyflwyniad
2. Pwy sy’n dod o dan y polisi?
3. Nodau'r polisi
5. Beth yw ystyr cyffuriau anghyfreithlon?
4. Y safbwynt cyfreithiol
5. Cod ymddygiad
6. Cyfrinachedd a diogelu data
7. Ein hymrwymiad

**Atodiad A Cyfarwyddyd**


**CYFLWYNIAD**

Mae'r polisi hwn wedi cael ei lunio gan weithgor prifysgol / Undeb y Myfyrwyr ar y cyd a oedd yn cynnwys swyddogion etholedig Undeb y Myfyrwyr a'r Undeb Athletau, staff bar Undeb y Myfyrwyr a'r Ganolfan Gynghori, staff y brifysgol o Goleg y Gwyddorau Dynol ac Iechyd, y Gwasanaethau Diogelwch, y Gofrestrfa Academaidd, y Gwasanaethau Preswyl, y Gwasanaethau Llesiant, a chynrychiolydd o'r GIG.

Fel man cychwyn, defnyddiodd y gweithgor y 'Polisi Enghreifftiol ar gyfer Sefydliadau Addysg Uwch Cymru, gan ymgorffori Prifysgolion ac Undebau Myfyrwyr'.

Dosbarthwyd y polisi drafft ar gyfer ymgynghori ag ystod eang o bersonél, gan gynnwys y Dirprwy Is-ganghellor (Profiad Myfyrwyr), y Grŵp Prifysgol Iach, y Tîm Rheoli Gwasanaethau Myfyrwyr a holl swyddogion llawn amser Undeb y Myfyrwyr.

## DATGANIAD POLISI CYFFURIAU

Mae Prifysgol Abertawe ac Undeb y Myfyrwyr yn ymrwymedig i hyrwyddo amgylchedd diogel a chefnogol i astudio a gweithio ynddo.

Er mwyn gwneud hynny, byddwn yn:

- Annog a chefnogi parch at ei gilydd o fewn cymuned y brifysgol gyfan
- Gweithio i greu dealltwriaeth o ymddygiad derbyniol ac awdurdodi defnydd cyfrifol o gamau disgyblu lle bo hynny'n briodol
- Codi ymwybyddiaeth o'r goblygiadau cyfreithiol a'r materion sy'n ymwneud â defnyddio cyffuriau anghyfreithlon
- Cymryd ein dyletswydd gofal cyfreithiol i'n myfyrwyr, ein staff ac ymwelwyr yn ddifrifol iawn ac anelu at ddarparu amgylchedd gwaith ac astudio diogel, iach ac o ansawdd uchel
- Cydnabod bod gan y staff ddyletswydd gofal i fod yn ymwybodol o ddangosyddion defnyddio cyffuriau anghyfreithlon a chymryd camau priodol pan fo angen
- Rhoi arweiniad a gwybodaeth i staff a myfyrwyr i'w helpu i ddatblygu'r hyder i wybod pa gamau i'w cymryd os ydynt yn poeni am ddefnydd cyffuriau anghyfreithlon neu iechyd a diogelwch cyd-fyfyrwyr, aelodau staff, neu eu hunain
- Darparu cymorth cyfrinachol i fyfyrwyr trwy'r Gwasanaethau Myfyrwyr neu Ganolfan Gynghori Undeb y Myfyrwyr i fyfyrwyr sy'n chwilio am help neu sydd â phryderon ynglŷn â'u defnydd nhw neu eu ffrindiau o gyffuriau.

**Polisi Cyffuriau**

## 1. Cyflwyniad

Mae'r polisi hwn yn rhan o ddull prifysgol ac Undeb y Myfyrwyr sy'n hyrwyddo amgylchedd diogel a chefnogol i astudio a gweithio ynddo. Mae'r nod trosfwaol yn un o gefnogaeth ac addysg, gan ganolbwyntio ar ffiniau ymddygiad derbyniol, cyfrifol a chyfreithiol.

Nid yw Prifysgol Abertawe ac Undeb y Myfyrwyr yn cymeradwyo meddu ar, defnyddio na chyflenwi cyffuriau anghyfreithlon ar unrhyw safle dan eu rheolaeth. Ein nod yw darparu amgylchedd diogel, iach a chefnogol i'n myfyrwyr a'n staff.

Mae'r brifysgol yn cydnabod na fydd y defnydd o gyffuriau anghyfreithlon yn effeithio ar y mwyafrif o fyfyrwyr ond, pan fo myfyriwr yn datgan bod ganddo broblem, bydd ei achos yn cael ei drin yn gydymdeimladol ac yn gyfrinachol. Bydd cymorth yn cael ei gynnig trwy'r Gwasanaethau Myfyrwyr a Chanolfan Gynghori Undeb y Myfyrwyr lle bo modd, a gellir atgyfeirio at asiantaethau cymorth allanol pan fydd y cymorth sydd ei angen y tu allan i arbenigedd y gwasanaethau hynny.

Mae'n bwysig cydnabod y gall myfyrwyr sydd â phroblemau sy'n gysylltiedig â chyffuriau achosi niwed iddynt hwy eu hunain ac i eraill a bydd y risgiau hyn yn cael eu hystyried mewn unrhyw gamau gweithredu. Mae'r defnydd anghyfreithlon o gyffuriau yn aml yn effeithio ar berfformiad, ymddygiad a pherthynas myfyrwyr ar eu cwrs ac yn eu llety. Gall hefyd gael canlyniadau ar gyfer dewisiadau gyrfa yn y dyfodol.

Mae gan y brifysgol ddyletswydd gofal cyfreithiol i'w myfyrwyr, staff ac ymwelwyr ac mae'n anelu at ddarparu amgylchedd astudio a gwaith diogel, iach ac o safon uchel.

Nod y brifysgol yw lleihau'r risgiau sy'n gysylltiedig â defnyddio cyffuriau anghyfreithlon a chynorthwyo wrth roi mwy o wybodaeth, ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o faterion sy'n gysylltiedig â chyffuriau i fyfyrwyr a staff.

Mae gan bob myfyriwr gyfrifoldeb cyfreithiol i gymryd gofal rhesymol dros ei ddiogelwch ei hun a rhai eraill.

## 2. Pwy sy’n dod o dan y polisi?

Mae'r polisi'n berthnasol i fyfyrwyr mewn amgylchiadau lle mae perygl iddyn nhw neu i eraill, neu pan fydd eu hymddygiad neu ansawdd eu gwaith yn effeithio ar eraill neu enw da'r brifysgol (megis myfyrwyr ar leoliad gwaith a drefnir gan y brifysgol, myfyrwyr sy’n gweithio mewn labordai ar brosiectau ymchwil, neu fyfyrwyr sy’n aelodau o dimau chwaraeon y brifysgol). Mae'n berthnasol ni waeth os yw myfyrwyr ar safle’r brifysgol neu mewn mannau eraill ar fusnes prifysgol neu weithgareddau astudio, gan gynnwys ar safleoedd a reolir ar ran y brifysgol gan drydydd parti, megis neuaddau preswyl a reolir yn breifat neu eiddo Gwasanaethau Llety Myfyrwyr oddi ar y campws.

Mae'r polisi hefyd yn berthnasol i Undebau Myfyrwyr, sy’n gyrff annibynnol sy'n cynnal a rheoli eu materion eu hunain yn unol â'u cyfansoddiad.

Mewn rhai sefyllfaoedd, efallai y bydd unigolion yn destun camau disgyblu o dan weithdrefnau disgyblu'r brifysgol, y bydd gofyn iddynt adael, a/neu y bydd yr heddlu'n cael eu hysbysu. Nid yw'r brifysgol yn dymuno gwneud ei myfyrwyr neu ymwelwyr yn droseddwyr, ond mae defnyddio a meddu ar gyffuriau anghyfreithlon yn drosedd.

## 3. Nodau'r polisi

Diben y polisi yw:

- Hyrwyddo iechyd, diogelwch a llesiant drwy ddarparu gwybodaeth, cyngor, arweiniad a chefnogaeth
- Rhoi gwybod i fyfyrwyr am oblygiadau posibl defnyddio cyffuriau anghyfreithlon
- Rhoi gwybod i fyfyrwyr sut y gall defnyddio cyffuriau anghyfreithlon a'i ganlyniadau posibl arwain at gamau disgyblu a/neu gyfreithiol
- Darparu gwybodaeth ar opsiynau cymorth lle bo hynny'n briodol
- Annog unigolion â phroblemau sy'n ymwneud â chyffuriau i ofyn am help
- Cynnig canllawiau i bob myfyriwr ac aelod o staff ynglŷn â'i gyfrifoldebau a'r cod ymddygiad gofynnol

## 4. Beth yw ystyr cyffuriau anghyfreithlon?

Gellir dod o hyd i wybodaeth am gyffuriau rheoledig o dan Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971, eu dosbarthiadau a’r cosbau posibl am dorri'r

gyfraith yma: http://www.homeoffice.gov.uk/drugs/drug-law/. Mae'r tabl isod yn darparu'r wybodaeth fel ag yr oedd ym mis Mai 2012.

| | | Meddiant | Delio |
|---|---|---|---|
| **Dosbarth A** | Ecstasi, LSD, heroin, cocên, crac, madarch hud, amffetaminau (os ydynt yn barod i'w chwistrellu) | Hyd at saith mlynedd yn y carchar neu ddirwy anghyfyngedig neu'r ddau | Hyd at oes yn y carchar neu ddirwy anghyfyngedig neu'r ddau |
| **Dosbarth B** | Amffetaminau, canabis, methylphenidate (Ritalin), pholcodin | Hyd at bum mlynedd yn y carchar neu ddirwy anghyfyngedig neu'r ddau | Hyd at 14 mlynedd yn y carchar neu ddirwy anghyfyngedig neu'r ddau |
| **Dosbarth C** | Tawelyddion, rhai cyffuriau i ladd poen, gamma hydroxybutyrate (GHB), cetamin | Hyd at ddwy flynedd yn y carchar neu ddirwy anghyfyngedig neu'r ddau | Hyd at 14 mlynedd yn y carchar neu ddirwy anghyfyngedig neu'r ddau |

## 5. Y safbwynt cyfreithiol

Deddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971 "I gyfyngu ar y defnydd o gyffuriau sy'n achosi niwed i'r unigolyn neu i eraill."

Mae'r Ddeddf hon yn ymwneud â'r canlynol:

- Meddiant
- Cyflenwi
- Meddiant gyda'r bwriad o gyflenwi
- Cyffuriau rheoledig mewn safleoedd

a hynny mewn perthynas â chyffuriau Dosbarth A, B a C.

Mae Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 yn gosod dyletswydd gofal ar gyflogwyr i sicrhau, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, iechyd, diogelwch a lles yn y gwaith staff, myfyrwyr a defnyddwyr eraill o'u safle.

Mae Deddf Traffig Ffyrdd 1988 yn nodi bod rhywun yn euog o drosedd os yw'n gyrru neu'n ceisio gyrru cerbyd modur mewn man cyhoeddus pan nad yw'n addas i wneud hynny oherwydd diod neu gyffuriau.

**Camau disgyblu**

- Er y bydd pob achos yn cael ei asesu'n unigol, bydd unrhyw breswylydd sy'n cael ei ganfod mewn meddiant sylweddau sydd naill ai'n gyffuriau anghyfreithlon neu yr amheuir eu bod yn gyffuriau anghyfreithlon, neu y canfyddir ei fod yn defnyddio neu'n delio mewn sylweddau anghyfreithlon mewn safle sy'n eiddo i Wasanaethau Preswyl Prifysgol Abertawe neu sy'n cael ei reoli ganddynt, fel arfer yn wynebu camau disgyblu fel y manylir arnynt yn y Rheoliadau Preswylio. Mae meddu ar gyffuriau anghyfreithlon yn drosedd Categori D, ac mae meddu ar neu ddelio mewn cyffuriau anghyfreithlon dro ar ôl tro yn drosedd Categori E.
- Mae'r cam disgyblu hwn ar gyfer troseddau Categori D ac E yn cynnwys cyhoeddi "Hysbysiad i Adael" y llety. Gall myfyrwyr hefyd gael eu atgyfeirio at y Gofrestrfa Academaidd o dan weithdrefnau disgyblu ffurfiol y brifysgol. Gallai hyn fod â goblygiadau i ddyfodol myfyriwr yn y brifysgol (yn enwedig mewn perthynas ag addasrwydd i ymarfer) ac ar gyfer cyflogaeth a chofrestru proffesiynol yn y dyfodol lle bo hynny'n berthnasol.
- Gallai unrhyw ddigwyddiad sy'n ymwneud â chyffuriau anghyfreithlon arwain at achos troseddol. Gall unrhyw achos o'r fath arwain at gamau gan y brifysgol hefyd, o dan y Rheolau a Gweithdrefnau Disgyblu.
- Os darganfyddir neu amheuir bod rhywun sydd ar eiddo a reolir gan Brifysgol Abertawe neu Undeb y Myfyrwyr yn ymwneud â chyffuriau anghyfreithlon ac nad yw'r unigolyn hwn yn fyfyriwr, bydd yn cael ei wahardd am oes ar unwaith o'r eiddo hwnnw.
- Gall unrhyw fyfyriwr sy'n gwahodd rhywun i safle Prifysgol Abertawe neu Undeb y Myfyrwyr a darganfyddir bod yr unigolyn hwn yn ymwneud â chyffuriau anghyfreithlon hefyd fod yn destun camau disgyblu.

## 6. Cod ymddygiad

Mae'r cod ymddygiad yn disgrifio'r rhwymedigaethau iechyd a diogelwch cyfreithiol a'r safonau ymddygiad disgwyliedig ar gyfer myfyrwyr a staff. Mae'n ddisgwyliedig fod pob myfyriwr yn cymryd cyfrifoldeb personol dros sicrhau nad yw defnyddio cyffuriau anghyfreithlon yn effeithio ar waith na pherfformiad astudio. Gall torri'r cod arwain at gamau disgyblu.

Mae'r cod yn nodi'r canlynol:

- Ni ddylai unrhyw un ymgymryd â busnes sy'n gysylltiedig â'r brifysgol na chynrychioli'r brifysgol pan fydd yn anaddas i wneud hynny oherwydd y defnydd o gyffuriau anghyfreithlon.
- Mae defnyddio cyffuriau anghyfreithlon sy'n arwain at risg i ddiogelwch yr unigolyn neu i eraill yn debygol o arwain at gamau disgyblu. Gall enghreifftiau o hyn gynnwys gwaith clinigol gyda chleifion, gyrru, gweithgareddau chwaraeon, defnyddio peiriannau neu sylweddau peryglus, neu unrhyw weithgareddau eraill a nodwyd yn beryglus ar asesiad risg.
- Methu â chydymffurfio ag unrhyw ofynion cofrestru statudol, codau moeseg broffesiynol neu ddarpariaethau achredu sy'n cyfeirio at ddefnyddio cyffuriau anghyfreithlon (e.e. mewn gwaith clinigol gyda chleifion neu wrth weithio gydag ysgolion).
- Caiff staff a myfyrwyr eu hargymell yn gryf i beidio â pheryglu eu diogelwch eu hunain trwy weithio gyda neu fod yn ddibynnol ar (e.e. fel teithiwr car neu fws) rywun sydd dan ddylanwad cyffuriau anghyfreithlon neu sylweddau eraill.
- Cynghorir myfyrwyr yn gryf y bydd y coleg perthnasol yn ymchwilio i amhariad ar weithgarwch academaidd oherwydd defnyddio cyffuriau anghyfreithlon.
- Ni ddylid rhoi pwysau ar eraill i gymryd cyffuriau anghyfreithlon. Mae hyn yn cynnwys ymddygiad amharchus neu neilltuedig a sbeicio diodydd.

## 7. Cyfrinachedd a diogelu data

Ymdrinnir â phob achos yn gyfrinachol a bydd pob gwybodaeth bersonol yn cael ei phrosesu'n ddiogel yn unol â Deddf Diogelu Data 1998. Gall personél perthnasol ei defnyddio i ystyried unrhyw gymorth sydd ei angen ac i reoli'r berthynas astudio. Lle bynnag y bo'n bosibl, caiff datgelu gwybodaeth gyfrinachol gan fyfyrwyr ei anrhydeddu, oni bai fod y myfyriwr neu rywun arall mewn perygl difrifol o niwed. Dylai staff ddatgan yn glir o'r cychwyn fod cyfrinachedd cyfyngedig yn berthnasol ac na fydd cyfrinachedd yn cael ei gynnal os yw celu'r wybodaeth yn peri risg i'r unigolyn neu i eraill.

**Atodiad A**

**Cyfarwyddyd**

**Dylai pob myfyriwr allu gwneud y canlynol:**

- Bod yn ymwybodol o'r polisi hwn a'r dogfennau ategol.
- Chwilio am gymorth yn wirfoddol os yw’n poeni am ei ddefnydd o gyffuriau. O fewn y brifysgol, mae help ar gael gan diwtoriaid personol, y Gwasanaethau Myfyrwyr ac Undeb y Myfyrwyr. Am ffynonellau cymorth o fewn y gymuned, cyfeiriwch at ein gwefan neu cysylltwch â'r ffynonellau a nodir uchod.
- Gofyn am help neu gyngor os gofynnwyd iddo wneud hynny, gan gynnwys fel rhan o sancsiwn disgyblu.
- Annog myfyrwyr eraill i chwilio am gymorth os oes ganddynt broblem.
- Cael mynediad at wybodaeth am effeithiau posibl defnyddio cyffuriau anghyfreithlon ar gyllid, iechyd a phobl eraill. Mae hon ar gael trwy’r Gwasanaethau Myfyrwyr ac Undeb y Myfyrwyr.
- Rhybuddio aelod priodol o staff ynglŷn ag unrhyw broblemau y mae’n eu gweld yn datblygu o fewn y sefydliad, yn enwedig lle mae pryderon cyfreithiol neu iechyd a diogelwch yn berthnasol.
- Bod yn ymwybodol o ymddygiad myfyrwyr o'u cwmpas ac yn gwneud ei orau i sicrhau eu diogelwch a'u llesiant.

**Dylai staff wneud y canlynol:**

- Bod yn ymwybodol o'r polisi, y gweithdrefnau, y gwasanaethau sydd ar gael a'r gweithdrefnau atgyfeirio sydd ar gael ar gyfer ymdrin â materion sy'n ymwneud â chyffuriau. Dylai'r wybodaeth hon gael ei chynnwys yn hyfforddiant sefydlu myfyrwyr.
- Annog myfyrwyr i gael mynediad at gymorth priodol os oes pryderon ynglŷn â'u lles mewn perthynas â defnyddio cyffuriau anghyfreithlon.
- Bod yn ymwybodol o effeithiau posibl defnyddio cyffuriau wrth gynnal asesiadau risg ar weithgareddau arfaethedig.
- Wrth ymchwilio i ddamweiniau a digwyddiadau, edrych am arwyddion o ddefnyddio cyffuriau anghyfreithlon a chysylltu â'r adrannau perthnasol.

**Dylai Undeb y Myfyrwyr wneud y canlynol:**

- Gweithredu fel cyfleuster hunangyfeirio cyfrinachol i fyfyrwyr.
- Cadw at ganllawiau cyfrinachedd a'r Ddeddf Diogelu Data pan fo myfyriwr yn mynd ato am gymorth ar gyfer mater sy'n ymwneud â chyffuriau.
- Cynnig gwybodaeth a chyngor ar y gwasanaethau sydd ar gael i fyfyrwyr sy'n ceisio help am eu defnydd o gyffuriau.
- Darparu a chefnogi digwyddiadau addysgol, ymgyrchoedd ymwybyddiaeth, a gweithgareddau sy'n hybu iechyd a llesiant ar y cyd ag adrannau eraill.
- Sicrhau bod polisïau sy'n gysylltiedig â myfyrwyr yn adlewyrchu agweddau at gyffuriau sy'n ffafriol i lesiant myfyrwyr a'u bod yn cydymffurfio â'r gyfraith.

**Dylai’r Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrwyr wneud y canlynol:**

- Gweithredu fel cyfleuster hunangyfeirio cyfrinachol i fyfyrwyr.
- Rhoi gwybodaeth, cyngor, arweiniad a chefnogaeth i fyfyrwyr sy'n mynd atynt â phryderon sy'n ymwneud ag alcohol.

- Datblygu a chyhoeddi gwybodaeth i fyfyrwyr ar effeithiau posibl defnyddio cyffuriau anghyfreithlon.
- Cadw at ganllawiau cyfrinachedd a'r Ddeddf Diogelu Data pan fo myfyriwr yn ceisio cymorth ar gyfer mater sy'n ymwneud â chyffuriau.
- Sicrhau bod systemau atgyfeirio ar gael i asiantaethau cymorth cyffuriau yn y gymuned.
- Mynegi pryderon i bersonél priodol yn y brifysgol os yw mater lles sy’n gysylltiedig â chyffuriau yn cael ei weld dro ar ôl tro yn y gwasanaeth.
- Cymryd yr holl gamau angenrheidiol i sicrhau nad yw myfyrwyr sydd â phroblemau sy'n ymwneud â chyffuriau yn peri risg iddynt hwy eu hunain neu i eraill.

**Dylai staff y Gwasanaethau Preswyl wneud y canlynol:**

- Bod yn ymwybodol o wasanaethau cymorth sy'n ymwneud â chyffuriau o fewn y sefydliad a chyfeirio myfyrwyr atynt yn unol â hynny.
- Cysylltu â chyfathrebu â phersonél eraill o fewn y sefydliad mewn perthynas â digwyddiadau sy'n ymwneud â chyffuriau, e.e. y Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrwyr, y Gwasanaethau Diogelwch.
- Monitro a chofnodi digwyddiadau sy'n ymwneud â chyffuriau o fewn neuaddau preswyl a sicrhau bod yr adroddiadau hyn ar gael i staff perthnasol.
- Adrodd a/neu ymchwilio i unrhyw ddigwyddiadau sy'n gysylltiedig â chyffuriau sy'n mynd yn groes i reoliadau'r brifysgol.
- Os yw unrhyw un yn cael ei ganfod mewn adeiladau llety ar ôl defnyddio cyffuriau anghyfreithlon, neu os amheuir ei fod wedi defnyddio cyffuriau anghyfreithlon, sicrhau ei fod yn derbyn y gofal a'r sylw angenrheidiol mewn perthynas â'i gyflwr corfforol.

## Atodiad B

## Camau a argymhellir ar gyfer digwyddiadau sy'n ymwneud â chyffuriau

Mae'r ddyletswydd gofal i fyfyrwyr yn hollbwysig. Os yw myfyriwr sy'n byw yn neuaddau preswyl y brifysgol yn peri risg iddo ei hun neu i eraill oherwydd y defnydd o gyffuriau anghyfreithlon, dylid hysbysu staff y Gwasanaethau Preswyl am hyn neu, y tu allan i oriau gwaith, staff diogelwch a bydd y rhain yn cymryd y camau priodol. Argymhellir bod myfyriwr sy'n dan ddylanwad trwm cyffuriau yn cael ei gadw dan wyliadwriaeth nes y gellir galw am gymorth.

Os yw myfyriwr sy'n byw mewn llety preifat yn peri perygl i'w hun neu i eraill oherwydd y defnydd o gyffuriau anghyfreithlon, argymhellir y dylid cymryd camau os yw'n bosibl er mwyn sicrhau ei fod yn ddiogel hyd nes y bydd yr effeithiau wedi gorffen. Gall hyn gynnwys galw'r Gwasanaethau Brys neu gysylltu â Galw Iechyd Cymru am gyngor.

Os yw'n hysbys fod myfyriwr yn defnyddio cyffuriau anghyfreithlon dro ar ôl tro i'r graddau y mae'n rhoi ei hun neu eraill mewn perygl, dylid ei gynghori i geisio cyngor gan y Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrwyr neu asiantaeth cymorth cyffuriau yn y gymuned. Os nad yw'n fodlon gwneud hynny, gall y rhai sy'n pryderu am ei ymddygiad gysylltu â'r Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrwyr i drafod yr achos yn ddienw.